**COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWTD 15 HYDREF 2024, DRWY ZOOM AM 7:00 Y.H.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Avril Jones (Is-gadeirydd), Alan Pritchard, Cemlyn Jones, Gwynedd Williams, Richard Robinson, Philip Roberts, Hefin Jones, Berwyn Parry Jones, Beca Brown

**YMDDIHEURIADAU:** Rhys Parry, Ann Lawton

**CLERC:** Meirion Jones

**1366. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Avril Jones, Is-gadeirydd y cyngor ac estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod.

**1367 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1368. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**1369. I dderbyn cofnodion cyfarfod 17 Medi 2024**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1370. Unrhyw fater yn codi o'r cofnodion**

**Arwyddion caeau chwarae**

Adroddwyd fod y Cynghorydd Avril Jones, ynghyd a'r clerc wedi bod o gwmpas y caeau chwarae i weld faint o arwyddion oedd ei angen.

Nodwyd fod angen arwyddion ar gyfer

Rheolau y Caeau Chwarae
Dim Cŵn
Dim ysmygu

Bydd y cyngor yn symud ymlaen i archebu'r arwyddion

**Holiadur caeau chwarae**

Adroddwyd fod holiadur wedi greu ac wedi gofyn i'r ysgol gynradd os buasai yn bosib i'r plant ei lenwi ar gyfer penderfynu pa offer ychwanegol fyddai yn

dderbyniol i gae chwarae Pwll Moelyn. Hyd yma doedd yr Ysgol ddim wedi ymateb

Adroddwyd fod y diffibriliwr wedi ei osod yn Crawia ac wedi gofrestru gyda ‘The Circuit’.

Adroddwyd fod y contractwr yn gobeithio gosod y fainc yn Cwm y Glo cyn diwedd yr wythnos.

**1371. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddi wrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Llanrug a Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd**

**1372. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts, cadeirydd y pwyllgor y canlynol.

- Yn dilyn ymholiad ysgrifenedig gan Ymgymerwr lleol ynglŷn â chyfrifoldeb torri beddi ymatebodd y Clerc trwy lythyr nad oes newid i’r drefn bresennol ond mae risg i’r cyngor os nad ydym yn ymwybodol o bwy sydd yn torri bedd, pa bryd, pa systemau iechyd a diogelwch sydd yn cael eu defnyddio. Oherwydd hyn mae’n bosib bydd angen casglu’r wybodaeth berthnasol yn y dyfodol.

- Yn dilyn ymholiad ysgrifenedig gan aelod o’r cyhoedd ynglŷn â mynwent yr eglwys bydd rhaid adolygu os yw arwyddion yn nodi yn glir pa gorff sydd yn gyfrifol am ba fynwent. Yr oedd yr ymholiad hefyd yn cwyno am gyflwr y lon i’r eglwys a’r mynwentydd.

- Cystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn 2024.

  Cyhoeddwyd canlyniadau cystadleuaeth genedlaethol (DU) Mynwent y Flwyddyn yr ICCM (Institute of Cemetery and Crematorium Management) ar Fedi 24. Unwaith eto enillodd Cyngor Cymuned wobr arian yn ei chategori. Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi cyfrannu at y canlyniad a diolch iddynt am eu gwaith caled dros y flwyddyn ddiwethaf.

  I roi pethe yn ei chyd-destun ,mae’r praesept y sawl enillodd y Wobr Aur, sef Blandford Forum Cemetery yn £825,250 ar gyfer 23/24 ac mae’r cyngor yn cyflogi 16 aelod o staff. Yn gydradd ail, yn ennill wobr arian , sef Cyngor Dosbarth Syston, mae praesept nhw yn £673,457 ac yn cyflogi 13 aelod o staff. Mae Praesept Cyngor Cymuned yn £85,000 gydag un aelod o staff, sef Clerc y Cyngor.

- Cyfarfod nesaf is-bwyllgor y Fynwent ; 24.10.24 am 6.30 y.h. dros Zoom.

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn a diolch am yr adroddiad.

b) Llongyfarch y pwyllgor ar eu gwaith yng nghystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn

**1373. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**

Adroddwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Hamdden ac Adnoddau =, Y Cynghorydd Avril Jones nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf o'r cyngor ond fod cyfarfod wedi drefnu ar gyfer 12 o Dachwedd .

Fodd bynnag, ar wahân i'r materion y cyfeiriwyd atynt yn eitem 1370 uchod roedd wedi adnabod fod yr 'Air Walker' angen bearings newydd.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1374. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, cadeirydd y pwyllgor eu boid wedi cyfarfod ar 8fed o Hydref ac ymys yr eitemau a drafodwyd oedd

a) Fod y gwaith yn mynd rhagddo yn adolygu cynnwys gwefan y cyngor
b) Fod y polisi grant y cyngor wedi adolygu a penderfynwyd nad oed angen ei newid ar hyn o bryd
c) Adolygwyd y gyllideb ac fe'i addaswyd fel yn briodol
d) Cyfarfod nesaf o'r pwyllgor ar 10fed o Ionawr 2025 i gyfrifo praesept ar gyfer 2025/2026

**Penderfynwyd**: Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1375. Trefniadau parcio Glan Moelyn (Cyng Hefin Jones)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones, ei fod wedi derbyn cais yn holi os oedd bosib newid trefniadau parcio ger cae chwarae Pwll Moelyn**.**

Ar hyn o bryd mae ceir yn parcio un tu ôl i'r llall a'r cais oedd os fysai yn bosib newid fel fod ceir yn parcio yn wynebu'r cae chwarae.

**Penderfynwyd:** Trafodwyd y cais ac oherwydd rthesymau fel y byddai rthaid colli lawer o dir o'r cae chwarae, byddai effaith net y llecynnau parcio ddim yn gwarantu'r holl waith, ac ar ddiwedd y dydd mater i Gyngor Gwynedd ydi materion parcio a priffyrdd

**1376. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C24/0757/23/LL

**Math o Gais:** Cais Llawn

**Bwriad:** Newid defnydd tŷ (C3) i lety gwyliau tymor byr (C6), dymchwel adeilad allanol presennol a chodi adeilad ar gyfer pwll nofio mewnol yn ei le a dymchwel modurdy dwbl ac adeiladu anecs deulawr yn ei le

**Ymgeisydd:** Mrs Ruth Walker

**Cyfeiriad:** Cottage, Tyddyn Bistle Ffordd Cae Garw, Rhosbodrual, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2BW

**Ward:** Cwm y Glo

**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cefnogi'r cais

b) **Rhif y Cais:** C24/0733/23/CC
**Math o Gais** Gwaith i goed wedi'u amddiffyn
**Bwriad:** Gwaith i goed sydd yn destyn gorchymyn gwarchod coed.
**Ymgeisydd:** (Park Holidays UK Ltd)
**Asiant:** Phil Brophy (Barrell Treecare)
**Cyfeiriad:** Bryn Teg Caravan Park, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RF
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Cytuno i'r cais ond mynegwyd barn fod y cyngor yn anesmwyth gyda'r nifer o goed sydd yn cael eu torri a gobeithio nad oes gwaith yn mynd ymlaen yn torri coed sydd yn holliach ac fod yna goed yn cael eu plannu yn lle yr rhai a dorrwyd.

**1377.** I baratoi a cyflwyno sylwadau ar y 'cyfnod galw' ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd (bwriad o gyflwyno sylwadau'r cyngor cymuned ar ôl cyfarfod mis Tachwedd)

www.gwynedd.llyw.cymru/safleoeddposib

Penderfynwyd: Yr aelodau i baratoi sylwadau ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd

Daeth y cyfarfod i ben am 20:05

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: